Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service



# PECYN CAIS AM SWYDD

tancgc.gov.uk

# Rhagarweiniad

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am ddangos diddordeb mewn ymuno â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Fy ngweledigaeth i ar gyfer ein Gwasanaeth yw darparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru. 'Er bod gennym hanes balch o gyflawni, rydym yn gwybod bod yna le i wella bob amser.

Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu meddwl am Ymladdwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân ynunig sy'n gwneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.

Y tu ôl i'r sefyllfa weithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill mewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi'u lleoli mewn swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol.

Heb fod gennym swyddogaethau cymorth corfforaethol yn eu lle er mwyn darparu'r systemau, y prosesau a thechnoleg, ni fyddai'r Gwasanaeth yn gallu darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cymunedau.

Os ydych chi'n chwilio am yrfa gydag amrywiaeth, her a chyfleoedd i symud ymlaen, ynghyd â'r holl fanteision y byddech chi'n eu disgwyl gan sefydliad gwasanaeth cyhoeddus allweddol, yna beth am ystyried ymuno â ni yn un o'n swyddogaethau cymorth arbenigol neu weinyddol?

Diolch a phob lwc,





***Craig Flannery***
*Y Prif Swyddog Tân*

## EIN GWELEDIGAETH

I ddarparu'r Gwasanaeth gorau posibl i gymunedau canolbarth a gorllewin Cymru.

## OUR VISION

To deliver the best possible service for the communities of mid and west Wales.



#eichgtacgc #yourmawwfrs

# YMDDYGIADAU

- Bod yn Atebol
- Dangos Uniondeb
- Bod yn Foesegol
- Bod yn Barchus
- Bod yn Ddiduedd

# GALLUOGI

- Ein pobl
- Arweinyddiaeth a Rheolaeth: Llywodraethu, gwneud penderfyniadau a gwelliant parhaus.
- Cadernid Ariannol
- Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol
- Strategaeth Ddigidol a Thechnolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Partneriaethau a Chydweithio

# Manylion am y Gwasanaeth



rydym yn gwasanaethu
**4500**
cilometr sgwâr
(11,700 km$^2$)
o Gymru

Crëwyd y Gwasanaeth ym 1996 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, yn dilyn uno Brigadau Tân Dyfed, Powys a Gorllewin Morgannwg. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gwasanaethu ardaloedd y Cynghorau Sir canlynol:

City and County of Swansea – Dinas a Sir Abertawe | Cyngor Castell-nedd Port Talbot – Neath Port Talbot Council | Cyngor Sir Gâr – Carmarthenshire County Council | Cyngor Sir Penfro – Pembrokeshire County Council | Powys

Mae'r Gwasanaeth yn cyfrif am bron i ddwy ran o dair o Gymru, gan gwmpasu ardal wledig yn bennaf sy'n 11,700 km$^2$ (4,500 milltir sgwâr), gyda 650km o arfordir. Mae'r Gwasanaeth, sydd â'i Bencadlys yng Nghaerfyrddin, yn cyflogi 1300 o staff, gydag ychydig dros 1100 o'r rheini wedi'u lleoli mewn un o 58 o orsafoedd ar draws tair Isadran. Mae gan y Gwasanaeth y trydydd teneurwydd poblogaeth uchaf yng Nghymru a Lloegr ac mae yna 900,000 o bobl yn byw oddi mewn i ardal ein Gwasanaeth. Mae'r nifer hwn yn cynyddu i dros 2 filiwn yn sgil twristiaeth yn ystod misoedd yr haf.

Dyma'r trydydd Gwasanaeth Tân ac Achub mwyaf yn ddaearyddol yn y Deyrnas Unedig, yn dilyn Gwasanaethau Tân ac Achub yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn ynddo'i hun yn cyflwyno ystod o heriau gwahanol.

Ceir nifer o risgiau o wahanol fath oddi mewn i ardal y Gwasanaeth, yn amrywio o'r diwydiannau petrocemegol yn Aberdaugleddau, i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd poblog iawn fel Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae yma hefyd gymuned ffermio fawr a llawer o ddiwydiannau ysgafn eraill ar hyd ac ar led yr ardal.

Mae'r rhain, ynghyd ag arfordir helaeth a dyfrffyrdd mewndirol, yn creu rhai o'r risgiau arbenigol sydd i'w cael oddi mewn i'r Gwasanaeth.

gyda phoblogaeth o
**910,000**
yn byw mewn
**434,500**
o gartrefi

cydymffurio
**58**
o orsafoedd tân
gyda
**1350**
o staff

**402** Llawn amser
**702** Ar alwad
**23** Canolfan rheoli tân ar y cyd
**243** Staff cynorthwyol

# Buddion

Mae gweithio i'r Gwasanaeth yn agor y drws i bortffolio cyfan o fuddion all wella eich ffordd o fyw nawr ac i'r dyfodol.

### Cyfraddau cyflog cystadleuol -

wedi'u hadolygu'n ddiweddar i sicrhau tegwch ar draws pob rôl; gyda chynyddrannau blynyddol hyd at frig eich band cyflog, wrth i chi feithrin gwybodaeth a magu profiad.

### Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol -

Cynllun pensiwn hael, gyda'r Gwasanaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol (15.2% ar hyn o bryd) i ariannu eich ymddeoliad, yn ogystal â'r opsiwn i gynyddu eich buddion drwy brynu pensiwn ychwanegol neu fuddsoddi mewn Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY).

### Gwyliau Blynyddol hael –

26 diwrnod ynghyd â gwyliau banc, gan gynyddu hyd at 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.

### Cynllun Hyblyg –

Cyfle i ystwytho eich oriau gwaith er mwyn helpu ymdopi â bywyd y tu allan i'r gwaith.

- Parcio am ddim ar y safle
- Beicio i'r gwaith
- Cynllun disgownt i staff
- Iechyd a Lles

- Mynediad i gynllun disgownt Cerdyn Golau Glas
- Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir
- Cynllun benthyca offer TG Let's Connect
- Cyfleusterau ffreutur â chymhorthdal
- Clwb Chwaraeon a Chlwb Cymdeithasol
- Elusen Diffoddwyr Tân

# Amgylchedd Gwaith wedi'i Ffurfio gan ein Gwerthoedd

### Wedi ymrwymo i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth -

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd yr hyn a wnawn fel Gwasanaeth ac maent yn werthoedd sydd wrth wraidd prosesau, arferion a diwylliant ein sefydliad.

Fel gwasanaeth, rydym wedi ymrwymo i ganfod, deall a dileu'r holl rwystrau sy'n atal mynediad at wasanaethau, gwybodaeth a chyflogaeth.

Ar hyn o bryd mae gan y Gwasanaeth nifer fach o rwydweithiau / fforymau gweithwyr mewnol ar waith, sy'n chwarae rhan weithredol yn y dasg o:

- Hyrwyddo materion ar gyfer gweithwyr;
- Cyfrannu at agenda amrywiaeth a chynhwysiant y sefydliad;
- Cynghori ar ddatblygu polisi;
- Gwella'r amgylchedd gwaith i'r gweithwyr

### Wedi ymrwymo i leihau ein Heffaith Amgylcheddol -

Rydym yn cydnabod bod ein gweithrediadau yn cael effaith ar yr amgylchedd byd-eang a lleol ac rydym wedi ymrwymo i leihau effeithiau amgylcheddol andwyol oddi mewn i gyfyngiadau ariannol, gweithredol ac adnoddau.

Yn ein ras i Statws Carbon Sero Net erbyn 2030, mae'r Gwasanaeth wedi pennu targedau iddo'i hun sy'n cyd-fynd â map llwybr Llywodraeth Cymru ar gyfer datgarboneiddio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Gwasanaeth wedi sicrhau achrediad Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd Lefel 5, a hynny am yr 8fed flwyddyn yn olynol.

**#SERO30**

**YNGLŶN Â'R SWYDD HON**

Cefnogi datblygiad, gweithrediad a gwelliannau parhaus i'r system dyletswydd Ar Alwad trwy weithio'n agos gyda'r Arweinydd Cefnogi Ar Alwad, timau rhanbarthol, ac adrannau allweddol. Bydd y swydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni Cynllun Gweithredu Amcan 2, gwella perfformiad gwasanaethau, a chryfhau cydweithrediad ar draws y gwasanaeth.

I gael rhagor o wybodaeth am y swydd, cysylltwch â Kerry Hughes – Arweinydd Ar Alwad Gorsaf B: Kerry.Hughes@mawwfire.gov.uk

I wneud cais am y swydd, llenwch y ffurflen gais gan gyfeirio at y meini prawf sydd wedi'u nodi yn y Disgrifiad Swydd a Manyleb y Person.

Dylech ddychwelyd ffurflenni wedi'u llenwi ar e-bost i humanresources@mawwfire.gov.uk. Dylech chi gynnwys copïau o'ch cymwysterau gyda'r cais.

Nodwch fod croeso i chi anfon ceisiadau yn y Gymraeg, ac ni fydd unrhyw geisiadau a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Swyddog Cefnogi Ar-Alwad |
| **RHENG/SWYDD:** | Gradd 6 |
| **CYFEIRNOD Y SWYDD:** | |
| **LLEOLIAD:** | Ar draws ardal y Gwasanaeth |
| **YN ATEBOL I:** | Arweinydd Cefnogi Ar Alwad |
| **PRIF DDIBEN Y SWYDD:** | Gweithio'n agos gyda'r Arweinydd Cefnogi Ar-Alwad, timau rhanbarthol, ac adrannau allweddol i weithredu Cynllun Gweithredu Amcan 2, i yrru gwelliannau yn y system ddyletswydd Ar Alwad, ac i gryfhau cydweithrediad ar draws y gwasanaeth. |

| RHESTR O GYFRIFOLDEBAU | | YN ATEBOL I |
|---|---|---|
| 1) | Cynorthwyo gyda sicrhau a chydlynu'r ddarpariaeth o gymorth gweinyddol, monitro a chyfathrebu o ddydd i ddydd o fewn y Tîm Cefnogi Ar Alwad. | Arweinydd Cefnogi Ar Alwad |
| 2) | Gwneud y canlynol i gefnogi ymgyrchoedd recriwtio Ar Alwad ar draws yr ardal gwasanaeth, yn fewnol ac yn allanol:<br>• Cyflawni gweithgareddau recriwtio Ar Alwad wedi'u targedu yn ôl cyfarwyddyd Arweinydd y Tîm Cefnogi Ar Alwad, gan gyd-fynd â blaenoriaethau rhanbarthol ac anghenion staffio.<br>• Rhoi cefnogaeth weithredol i ymgyrchoedd recriwtio rhanbarthol**,** gan gyfrannu at gynllunio, hyrwyddo, ymgysylltu, a gweithgarwch dilynol gydag ymgeiswyr yn ôl yr angen. | Arweinydd Cefnogi Ar Alwad |
| 3) | Cefnogi’r gwaith o gyflwyno Dyddiau Profion Pwynt Mynediad yn effeithlon ac yn effeithiol ar draws ardal y Gwasanaeth, yn ôl yr angen. | Arweinydd Cefnogi Ar Alwad |
| 4) | Cydlynu ymarferion hyfforddi a gweithgareddau datblygu ar gyfer recriwtiaid newydd mewn cydweithrediad â thimau rhanbarthol. | Arweinydd Cefnogi Ar Alwad |
| 5) | Ymgysylltu â chyflogwyr Diffoddwyr Tân Ar Alwad presennol er mwyn sicrhau bod eu parodrwydd i ryddhau staff yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi. Meithrin perthnasoedd cryfach â chyflogwyr eraill trwy dynnu sylw at fanteision cyflogi Diffoddwr Tân Ar alwad. | Arweinydd Cefnogi Ar Alwad |
| 6) | Cynorthwyo'r Gwasanaeth i hyrwyddo gwaith Diffoddwyr Tân ar Alwad ar draws cynulleidfaoedd mewnol ac allanol. | Arweinydd Cefnogi Ar Alwad |
| 7) | Cynorthwyo â gwelliannau i’r gwasanaeth Ar Alwad, yn ôl cyfarwyddyd Arweinydd y Tîm Cefnogi Ar Alwad. | Arweinydd Cefnogi Ar Alwad |
| 8) | Cynorthwyo timau AD a rhanbarthol trwy gysylltu â recriwtiaid posibl, gan sicrhau bod yr holl wybodaeth | Arweinydd Cefnogi Ar Alwad |

| | | |
|---|---|---|
| | sy’n gysylltiedig â recriwtio yn cael ei gyfathrebu a’i reoli'n gywir. | |
| 9) | Rhoi cymorth gweinyddol cynhwysfawr, gan gynnwys creu nodiadau cyfarfodydd, ar gyfer yr holl faterion sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd Gwella Ar-alwad. | Arweinydd Cefnogi Ar Alwad |
| 10) | Cyfrifoldeb dros hyfforddi personél ar system OARS a chefnogi cywirdeb data, gan weithio'n agos gydag ORH a’r tîm CRhRC. | Arweinydd Cefnogi Ar Alwad |
| 11) | Bod yn weithredol wrth gynnal a hyrwyddo polisïau Iechyd a Diogelwch y Gwasanaeth o fewn cwmpas llawn cyfrifoldebau'r swydd. | Arweinydd Cefnogi Ar Alwad |
| 12) | Defnyddio meddalwedd She Assure i sicrhau adroddiadau ac adborth effeithiol ar bob mater sy'n ymwneud ag Iechyd a Diogelwch. | Arweinydd Cefnogi Ar Alwad |
| 13) | Cyfrifoldeb dros gynnal cyfrif e-bost y tîm cefnogi Ar Alwad gan sicrhau bod yr holl negeseuon e-bost yn cael sylw amserol gan y tîm cefnogi Ar Alwad. | Arweinydd Cefnogi Ar Alwad |
| 14) | Hyrwyddo parch, uniondeb, ymddiriedaeth, gonestrwydd a thegwch o fewn y sefydliad ac wrth ddarparu gwasanaethau. | Arweinydd Cefnogi Ar Alwad |
| 15) | Cynnal sgiliau a chymwyseddau cyffredinol sy'n berthnasol i'r swydd. | Arweinydd Cefnogi Ar Alwad |
| 16) | Cyfrifoldeb dros sicrhau bod y dudalen Gwybodaeth Ar Alwad yn cael ei diweddaru'n gyson, yn cael ei chynnal yn gywir, a'i bod yn gyfredol trwy’r amser. | Arweinydd Cefnogi Ar Alwad |
| 17) | Unrhyw ddyletswyddau sydd, o fewn rheswm, yn nghwmpas y swydd yn absenoldeb Arweinydd y Tîm Cefnogi Ar Alwad. | Arweinydd Cefnogi Ar Alwad |
| 18) | Ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc, ac oedolion sy'n agored i niwed yn y cymunedau ehangach drwy roi gwybod am bryderon i Swyddog Diogelu a/neu Dîm Diogelu’r Gwasanaeth. | Arweinydd Cefnogi Ar Alwad |

**Yn unol â gweithdrefn Recriwtio a Dethol y Gwasanaeth, mae angen datgeliad safonol fel isafswm ar gyfer pob rôl.**

**Bydd rhai rolau yn amodol ar lefelau uwch o wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn dibynnu ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r rôl, ac fel y'u dynodir gan y Pennaeth Rheoli neu'r Adran berthnasol.**

**Lle mae gofyniad wedi'i nodi am wiriad lefel uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, nodir y lefel a'r cyfiawnhad ar gyfer hyn isod:**

**LEFEL:** **Safonol**

**CYFIAWNHAD:** ..............................................................................................................

**PARATOWYD:** **DYDDIAD ADOLYGU: Mehefin 2025**

# Manylebau Personol

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD** | Swyddog Cefnogi Ar Alwad |
| **LLEOLIAD** | Ar Draws Ardal y Gwasanaeth |
| **RHIF Y SWYDD** | |
| **GRADD** | Gradd 6 |
| **ADRAN** | Ar alwad |
| **GWIRIAD DBS** | Safonol |

| Ffactor | Tystiolaeth | Hanfodol/ Dymunol | Dull Asesu |
|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth** | Gwybodaeth a phrofiad o ddefnyddio Office 365, gan gynnwys Microsoft Word ac Outlook | **Hanfodol** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |
| | Gwybodaeth am brosesau recriwtio ac adnoddau, gan gynnwys cynllunio, hyrwyddo, ymgysylltu ag ymgeiswyr, a gweithgarwch dilynol, yn enwedig o fewn cyd-destun yr ochr weithredol neu wasanaeth brys. | **Dymunol** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |
| | Dealltwriaeth o swyddi Diffoddwyr Tân Ar Alwad (System Dyletswydd Ar Alwad), gan gynnwys heriau recriwtio, llwybrau hyfforddi, a modelau staffio cymunedol. | **Dymunol** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |
| | Gwybodaeth am gyflawni a chefnogi gweithgareddau recriwtio ar draws cynulleidfaoedd mewnol ac allanol, gan gyd-fynd â blaenoriaethau sefydliadol ac anghenion staffio lleol. | **Dymunol** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |
| | Dealltwriaeth o gydlynu a chyflawni gweithgareddau asesu neu ddethol, megis Dyddiau Profion Pwynt Mynediad. | **Dymunol** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |
| | Gwybodaeth am brosesau hyfforddiant a datblygu ar gyfer recriwtiaid newydd, gan gynnwys cydlynu | | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ymarferion a gweithgareddau datblygu gyda sawl gwahanol dîm. | **Dymunol** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |
| | Ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ymgysylltu â chyflogwyr wrth gefnogi personél Ar Alwad, gan gynnwys effaith trefniadau rhyddhau o'r gwaith. | **Dymunol** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |
| | Dealltwriaeth o egwyddorion ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys meithrin perthnasoedd effeithiol â chyflogwyr a sefydliadau partner. | **Dymunol** | |
| | Gwybodaeth am y dulliau cyfathrebu a hyrwyddo sy'n cael eu defnyddio i wella ymwybyddiaeth o swyddi ymhlith cynulleidfaoedd a chymunedau amrywiol. | **Dymunol** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Profiad** | Profiad o gefnogi ymgyrchoedd recriwtio neu ddenu, gan gynnwys cyfrannu at gynllunio, hyrwyddo, ymgysylltu ag ymgeiswyr, a gweithgarwch dilynol. | **Dymunol** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |
| | Profiad o gyflwyno neu gefnogi mentrau recriwtio wedi'u targedu ymhlith cynulleidfaoedd mewnol ac allanol, gan gyd-fynd â blaenoriaethau sefydliadol neu rai'r gwasanaeth. | **Dymunol** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |
| | Profiad o gynorthwyo gyda chydlyniad a chyflawniad gweithgareddau asesu neu ddethol, megis dyddiau profi neu asesu, o fewn proses recriwtio strwythuredig. | **Dymunol** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |
| | Profiad o gydweithio â sawl tîm neu adran i gefnogi gweithgareddau recriwtio, hyfforddi neu ddatblygu. | **Dymunol** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |
| | Profiad o gydlynu neu gefnogi ymarferion hyfforddi neu weithgareddau datblygu ar gyfer newydd-ddyfodiaid neu recriwtiaid. | **Dymunol** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |
| | Profiad o ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys cyflogwyr neu sefydliadau partner, i feithrin a chynnal perthnasoedd gwaith effeithiol. | **Dymunol** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |
| | Profiad o gefnogi gweithgareddau cyfathrebu neu hyrwyddo i wella ymwybyddiaeth o swydd, gwasanaeth neu fenter ymhlith gwahanol gynulleidfaoedd. | **Dymunol** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |
| | | **Dymunol** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Profiad o wneud gwaith sy'n gofyn am drefniadaeth effeithiol, y gallu i flaenoriaethu, ac i roi sylw i fanylion ar draws sawl gweithgaredd neu leoliad. | **Dymunol** | |
| **Sgiliau Cysylltiedig â'r Swydd / Sgiliau Personol** | Y gallu i ddadansoddi anghenion technoleg a chefnogi cyflwyniad systemau digidol newydd<br><br>Y gallu i gydweithio mewn tîm yn ogystal â gweithio'n annibynnol<br><br>Creadigol, arloesol, a brwdfrydig ynghylch hyrwyddo dysg trwy dechnoleg ymgolli<br><br>Ymrwymiad i gynnal safonau uchel o gywirdeb, ansawdd a phroffesiynoldeb y gwasanaeth<br><br>Trwydded yrru lawn gyfredol a/neu'n gallu teithio i wahanol leoliadau gwaith<br><br>Y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg | **Dymunol**<br><br>**Hanfodol**<br><br>**Dymunol**<br><br>**Dymunol**<br><br>**Hanfodol**<br><br>**Dymunol** | **Ffurflen gais a Chyfweliad**<br><br>**Ffurflen gais a Chyfweliad**<br><br>**Ffurflen gais a Chyfweliad**<br><br>**Ffurflen gais a Chyfweliad**<br><br>**Ffurflen gais** |
| **Cyfathrebu** | Y gallu i gyfathrebu'n glir, rhoi arweiniad, a chefnogi defnyddwyr sydd â lefelau sgiliau digidol amrywiol<br><br>Y gallu i gydweithio'n effeithiol ag arbenigwyr pwnc a rhanddeiliaid mewnol/allanol | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol*** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |

**Yn unol â gweithdrefn Recriwtio a Dethol y Gwasanaeth, mae angen datgeliad safonol o leiaf ar gyfer pob swydd.**

**Bydd rhai rolau'n destun lefelau uwch o wiriad DBS, yn dibynnu ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd, ac fel y'u dynodwyd gan Bennaeth y Rhanbarth neu'r Adran berthnasol.**

**Pan fo gofyniad ar gyfer lefel uwch o wiriad DBS wedi'i nodi, nodir y lefel a'r cyfiawnhad dros hyn isod:**

**LEFEL:** **Safonol**

**CYFIAWNHAD:**

**PARATOWYD** **DYDDIAD: Ebrill 2026**

# Sut i wneud cais

Dyddiad Cau: 06 Mai 2026

Mae'r wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen gais yn wybodaeth allweddol a bydd yn cael ei defnyddio yn y broses o lunio rhestr fer. Mae'n bwysig felly bod y nodiadau canllaw isod yn cael eu dilyn wrth lenwi'r ffurflen gais. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch a fydd eich enw yn cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyfweliad. Bydd llunio'r rhestr fer yn cynnwys asesu'r manylion a ddarperir ar y ffurflen gais yn erbyn y meini prawf a amlinellir yn y Fanyleb Person a ddarperir.

Derbynnir ceisiadau mewn fformatau eraill pan fydd ymgeisydd yn cael anhawster i gwblhau'r ffurflen safonol o ganlyniad i anabledd.

## Beth fydd yn digwydd ar ôl i chi anfon eich cais?

Unwaith y byddwn wedi derbyn eich cais, byddwn yn gwahanu'r ffurflen monitro cyfle cyfartal na fydd yn rhan o'r broses ddethol ac yn anfon y ffurflen gais yn unig i'r adran sy'n llunio'r rhestr fer. Byddwn yn anfon cydnabyddiaeth o'i dderbyn at bob ymgeisydd.

Bydd eich cais wedyn yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf (mewn manyleb person) a bydd y panel sy'n llunio'r rhestr fer yn penderfynu a ellir eich cynnwys ar y rhestr fer.

Os na chaiff eich enw ei roi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, fe'ch hysbysir yn ysgrifenedig, fel arfer cyn pen chwe wythnos i'r dyddiad cau. Os nad ydych wedi clywed gennym erbyn hynny, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda.

Os caiff eich enw ei gynnwys ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, byddwch yn derbyn e-bost oddi wrthym cyn pen 2-3 wythnos i'r dyddiad cau fel arfer, yn nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfweliad. Bydd yr e-bost hefyd yn cynnwys manylion y profion asesu sydd i'w cynnal a bydd yn rhoi rhestr o'r ddogfennaeth y mae'n ofynnol i chi ei chario gyda chi, os yw'n berthnasol i'r rôl.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

www.tancgc.gov.uk